PERYF ap CEDIFOR WYDDEL (fl. 1170), bardd

Enw: Peryf ap Cedifor Wyddel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Yr oedd yn un o wyth o frodyr o leiaf, ac yr oedd Hywel ab Owain Gwynedd yn frawd maeth i saith ohonynt. Pan laddwyd Hywel ym mrwydr y Pentraeth, Môn (1170), gan lu Dafydd a Rhodri, ei hanner-brodyr, meibion Cristin, yr oedd y saith yno gydag ef. Lladdwyd rhai ac ni ddihangodd mwy na thri ohonynt yn ddianaf. Lladdesid Ithel, y brawd arall, cyn hynny, yn Rhuddlan, lle'r oedd yn ymladd tros Owain Gwynedd, a chanwyd englynion marwnad iddo gan Gynddelw (*The Myvyrian Archaiology of Wales* , 174a). Ar dud. 346 o'r *The Myvyrian Archaiology of Wales* ceir cyfres o englynion marwnad gan Beryf i Hywel, ac yn llawysgrif Hendregadredd 126a, a *The Myvyrian Archaiology of Wales* , 28 1b, ceir cyfres arall, ddienw, sy'n amlwg yn waith un o'r saith brawd maeth. Y mae pob achos dros dderbyn barn Thomas Price (*Hanes Cymru*, 584-7) a Thomas Stephens (*Literature of the Kymry*, 39-41) fod yr englynion gwych hyn ('Tra fuam yn saith trisaith ni'n beiddai') hefyd yn waith Peryf.

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Lloyd, D. M., (1953). PERYF ap CEDIFOR WYDDEL (fl. 1170), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PERY-APC-1170

Copïo ir Clipfwrdd

LLYFRGELL
THE NATIO